# Y NEGESYDD

HAF 2021 RHIFYN 22


# CYNADLEDDAU BLYNYDDOL UNDEB BEDYDDWYR CYMRU 2021

**O ganlyniad i'r Covid-19 nid oedd modd cynnal y Cyfarfodydd Blynyddol yn unol â'r arfer eleni eto, ac felly trefnwyd cyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb a thrwy gyfrwng Zoom.**

## YR ADRAN GYMRAEG

### "Awr Duw yn Galw"



**Llywydd newydd Adran Gymraeg Undeb Bedyddwyr Cymru, Miss Aldyth Williams, Seion Newydd.**

Cynhaliwyd Cyfarfod Busnes yr Undeb ddydd Llun, 21 Mehefin ac yna Oedfaon y Llywydd a'r Weinidogaeth drwy gyfrwng 'Zoom' ar 21 a 22 Mehefin.

Diolch i Mr Rhodri Darcy a'r Parchg Dylan Rhys, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, am y gwaith ffilmio a golygu ac i'r Parchg Simeon Baker am hwyluso'r trefniadau technegol. (Mae'r ddwy oedfa bellach ar gael ar dudalen Gweplyfr yr Undeb.)

## TON O WEDDI MOMEMTWM 2021

### "Newid yr Awyrgylch"


Cynhaliwyd gwasanaeth byr i lansio'r 'Don o Weddi' yn Ilston, Penrhyn Gŵyr cyn teithio i 11 o wahanol ganolfannau lle'r oedd eglwysi'n ymgynnull ar-lein neu wyneb yn wyneb i weddïo.

Derbyniodd pob un o'r canolfannau weddïau o fendith gan y ganolfan flaenorol ac yna paratowyd gweddïau ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r don weddi. Cludwyd llawer o'r gweddïau hyn mewn blwch arbennig a wnaed ar gyfer yr achlysur ac yn y ganolfan derfynol ym Mhen-y-bont ar Ogwr agorwyd y blwch a rhannwyd y gweddïau o'r holl ranbarthau yn yr Oedfa Glo ar ddydd Sul 27 Mehefin.

Yn y digwyddiad olaf, cyfarfu dros 160 o bobl, o bob rhan o Gymru, drwy gyfrwng Zoom i ddiolch i Dduw am y gweddïau a gynigiwyd, i gofio'r rhai oedd wedi colli anwyliaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon ac i ofyn i Dduw newid yr awyrgylch yn ein cenedl.

Roeddem yn ddiolchgar i'r Parchg Tony Peck, Ysgrifennydd Cyffredinol Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop (EBF), a'n hysbrydolodd gyda'i neges am blannu hadau gobaith lle mae Duw wedi ein galw.

Os hoffech weld fideos gwasanaeth Ilston neu'r oedfa glo gallwch ddod o hyd iddynt ar: https://buw.wales/momentum-2021



**Llywydd newydd Adran ddi-Gymraeg yr Undeb, y Parchg Steve Wallis, Pontnewydd ar Wy.**



**Y Parchedigion Mark Fairweather-Tall, Judith Morris, Simeon Baker a Dr Rosa Hunt yn dechrau'r 'Don o Weddi' yn Ilston.**

# Cynhadledd Flynyddol yr Adran Gymraeg 2021
# o dan nawdd Cymanfa Gorllewin Morgannwg




## OEDFA'R LLYWYDD

**Llywyddwyd yr oedfa yn Seion Newydd, Treforys gan Mr David Peregrine, a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Miss Meinir George a'r Parchg Derek Rees.**

Cyn trosglwyddo'r llywyddiaeth, diolchodd Mr David Peregrine am y fraint o gael gwasanaethu fel y Llywydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf a chyfeiriodd at rai o uchafbwyntiau'r cyfnod.

Yr Ysgrifennydd Cyffredinol oedd yn gyfrifol am drosglwyddo'r Llywyddiaeth i'r chwaer Aldyth Williams ac offrymwyd yr Urdd Weddi gan y Parchedig Eirian Wyn.

Brodor o Dreforys, Abertawe yw Aldyth, a chyn-athrawes. Seliodd ei hanerchiad ar y geiriau a welir ar gloc yn festri Seion Newydd, sef "Awr Duw yn Galw". Dyma'r geiriau a fu'n estyn gwahoddiad i'r ffyddloniaid am dros 170 o flynyddoedd. Heriodd y gynulleidfa i ddefnyddio pob cyfle yn ddoeth wrth ymateb i alwad Duw ac anogodd pawb i dderbyn y gwahoddiad ac i weithredu mewn cariad, egni a brwdfrydedd.

Cyfoethogwyd yr oedfa gan ddwy eitem gerddorol gan yr organydd Huw Tregelles Williams, sef 'Preliwd ar Rhosymedre' (R Vaughan Williams), ac 'Ymdeithgan ar Nun danket alle Gott' (Sigfrid Karg-Elert).



**Parchg Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, yn trosglwyddo'r Llywyddiaeth i Miss Aldyth Williams mewn oedfa fyw yn Seion Newydd.**

Cyn i Mrs Sarah East gyhoeddi'r Fendith, diolchwyd i Aled, disgybl o Ysgol Gyfun Gŵyr, am greu copi pren o'r cloc gyda'r geiriau 'Awr Duw yn Galw' wedi'u naddu arno.

## OEDFA'R WEINIDOGAETH

**Cynhaliwyd yr oedfa o dan lywyddiaeth Miss Aldyth Williams yng Ngharmel Pontlliw er cydnabyddiaeth i waith diflino'r gweinidog ac Ysgrifennydd Cymanfa Gorllewin Morgannwg, sef y Parchg Vincent Watkins.**

Offrymwyd y weddi agoriadol gan y Parchg Derek Rees a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan y Parchg Glandwr Roberts a'r Brawd Trevor Davies.

Arweiniodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol y ddefod i goffáu'r Cyn Lywyddion a'r Gweinidogion a fu farw yn ystod y flwyddyn, sef Miss Einwen Jones (Cyn-Lywydd) a'r Parchedigion W J Lewis, Dr D Hugh Matthews, a John Roberts. Offrymwyd gweddi'r coffâd gan y Parchg Geraint Morse.

Testun pregeth y Parchg Vincent Watkins oedd yr adnod adnabyddus a ddisgrifiwyd fel 'Curiad Calon yr Efengyl': "Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol" (Ioan 3:16). Cyfeiriodd at gyfoeth Rhyfeddod, Rhagoriaeth a Rhwydwaith y cariad dwyfol. Diolchwyd i Vincent am neges amserol a daeth yr oedfa i ben mewn gweddi a offrymwyd gan Mr Nigel Davies.

Mynegwyd gwerthfawrogiad arbennig a diolch diffuant i'r Llywydd, Miss Aldyth Williams, ynghyd â Chymanfa Gorllewin Morgannwg am yr holl baratoadau o dan amgylchiadau anodd. Profiad calonogol a bendithiol oedd bod yn rhan o'r cyfarfodydd.



**Y Parchg Vincent Watkins, pregethwr gwadd Oedfa'r Weinidogaeth yng Ngharmel.**

# Cyfarfodydd Busnes Blynyddol yr Undeb 2021

**Heriau a newyddion cadarnhaol:** Wrth gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol yn y ddau gyfarfod, cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchg Judith Morris, at yr heriau sylweddol oedd yn wynebu'r Eglwysi o ganlyniad i Cofid-19. Roedd nifer o eglwysi eisoes wedi penderfynu na fyddent yn ailagor yn y dyfodol a'r tebyg yw y byddai eraill hefyd yn dod i'r un penderfyniad. Ond er gwaethaf y cyd-destun anodd, yr oedd gan y swyddogion lawer o newyddion cadarnhaol am waith yr Undeb a'r Gorfforaeth.

**Is-lywydd:** Cyflwynwyd yr Is-Lywydd ar gyfer 2021-22, sef y Parchg Ddr Densil Morgan. Offrymwyd gweddi ar ei ran gan y Parchg Eirian Wyn, Treforys.

**Ymddiriedolwyr:** Mynegwyd gwerthfawrogiad o gyfraniad Mr David Evans oedd yn gorffen ei dymor fel un o Ymddiriedolwyr UBC, tra ar yr un pryd croesawyd Miss Delyth Williams fel aelod newydd o'r Bwrdd.

**Sul yr Hinsawdd:** Cyfeiriwyd at y gynhadledd COP-26 a fyddai'n cael ei chynnal yn Glasgow ym mis Tachwedd a'r cyfle a ddeuai i'r eglwysi i gynnal Oedfa Sul yr Hinsawdd er mwyn annog pob aelod i weithredu er budd yr amgylchedd.

**Cenn@d:** Hyfrydwch hefyd oedd cael cyfeirio at 'Cenn@d', sef y papur newyddion wythnosol a sefydlwyd ar y cyd rhwng Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

**Gweinidogaeth:** Cyflwynwyd adroddiad y Bwrdd gan y Parchg Marc Owen a chyfeiriodd at y myfyrwyr a gymeradwywyd ar gyfer hyfforddiant gweinidogaethol, yn ogystal â'r rhai oedd wedi gorffen eu hastudiaethau eleni. Ers cychwyn y cyfnod clo roedd cyfarfodydd rheolaidd wedi'u cynnal drwy gyfrwng Zoom gyda'n gweinidogion fel cyfrwng cefnogaeth.

**Cenhadaeth:** Cyfeiriodd y Parchg Simeon Baker, Cyfarwyddwr Cenhadaeth, at yr Hyfforddiant Cenhadol oedd wedi denu nifer dda o gyfranogwyr yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'r gweithwyr oedd wedi dod o dramor. Sefydlwyd partneriaeth gyda Scripture Union Cymru er mwyn ceisio cyrraedd y 95% o blant a phobl ifainc oedd heb unrhyw gysylltiad â'n heglwysi.



**Parchg Kath Miller - "Arweinydd Arloesi":** Fel rhan o gynllun gwaith Bwrdd y Genhadaeth, gwahoddwyd y Parchg Kath Miller i weithredu fel 'Arweinydd Arloesi' rhan-amser er mwyn datblygu ymateb yr Undeb i'r dirywiad yn ein heglwysi. Bu Kath yn arwain y gwaith yn Hengoed Newydd ers nifer o flynyddoedd ac mae am ddefnyddio'r profiad hwnnw fel catalydd i ystyried o'r newydd sut y gall Undeb Bedyddwyr Cymru ddarganfod arweinwyr arloesol ar gyfer cenhadaeth yng Nghymru yn y dyfodol a chynorthwyo'r eglwysi i ddod o hyd i ffyrdd newydd o fod yn eglwys. Ar hyn o bryd mae Kath yn dysgu Cymraeg ac fe fydd yn astudio ar gyfer gradd Meistr er mwyn gwreiddio'r gwaith yn ddiwinyddol ac yn gyd-destunol o safbwynt y Bedyddwyr yng Nghymru.

**Cyllid:** Derbyniwyd adroddiad calonogol gan y Swyddog Cyllid, Mr Nigel Vaughan wrth iddo nodi bod 93% o'r eglwysi wedi talu'r Gyllideb Gyfan y llynedd gyda'r un nifer wedi cyfrannu am eleni. Gwnaed arbedion ariannol sylweddol drwy gynnal holl gyfarfodydd yr Undeb drwy gyfrwng Zoom a olygai ostyngiad hefyd yn yr allyriadau C02. At hynny, gwnaed penderfyniad i beidio â buddsoddi mewn cwmnïoedd oedd yn ymwneud â thanwydd ffosiledig.

**Y Gorfforaeth:** Nodwyd fel yr oedd Corfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru wedi dathlu ei chanmlwyddiant eleni ac roedd yn fwriad gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol i wahodd syniadau ynglŷn â sut y gellid nodi'r garreg filltir hon.

Roedd Cartref Glyn Nest wedi dathlu ei hanner can mlwyddiant y llynedd a diolchwyd i'r Parchg Irfon Roberts am ei wasanaeth fel Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli.

Cafwyd adroddiad gan Mrs Helen Wyn, Cyd-lynydd y Gorfforaeth am werthiannau capeli, ynghyd â'r drefn newydd a gyflwynwyd er mwyn ystyried y posibiliadau cenhadol a masnachol ar gyfer yr adeiladau pan fyddai achos yn dod i ben. Gwnaed buddsoddiad ariannol sylweddol wrth ddarparu benthyciad i sefydlu tŷ cenhadol yn Nhonteg. Mynegwyd gwerthfawrogiad i Mrs Rosemary Morgan ar ei hymddeoliad fel un o Gyfarwyddwyr y Gorfforaeth.

## Llongyfarchiadau!

**Llongyfarchiadau i'r canlynol ar ennill gwobrau yng Ngholeg y Bedyddwyr Caerdydd:**

Sian Elin Thomas: Gwobr Thomas Philips ar gyfer Athrawiaeth Cristnogol

Jon Brewer: Gwobr ar gyfer Astudiaethau Bugeiliol

Mervyn Rigg a Misha Pedersen: Gwobr Astudiaethau Beiblaidd

## Gwefan Newydd UBC

**Cofiwch ymweld â'r wefan newydd:**

**www.ubc.cymru**

# Croesawu Gweithwyr o Dramor!



**Anna Ketchum**

Mae Anna Ketchum wedi teithio'r holl ffordd o Oklahoma, Unol Daleithiau America, i Gymru er mwyn cael cefnogi Eglwys Penuel, Caerfyrddin yn eu cenhadaeth a'u gweinidogaeth. Ymwelodd Anna â Chymru a Phenuel ar sawl achlysur dros y blynyddoedd ac ymdeimlodd â galwad Duw i dreulio cyfnod estynedig yn gweithio gyda'r eglwys hon.

Meddai Anna, "Mae'n rhyfedd ac yn anhygoel fod Duw, ar ôl cynifer o flynyddoedd, wedi agor y drws i mi gael bod yma yng Nghymru ar gyfer cyfnod estynedig. Pan ddeuthum i Gymru am y tro cyntaf yn 2014, gwyddwn fod gennyf awydd i ddod i fyw a gweithio gyda'r eglwys, ond ni allwn fod wedi dychmygu'r ffyrdd y byddai Duw'n gweithio er mwyn cyflawni hyn. Mae saith mlynedd yn amser hir i aros am unrhywbeth, ond bu'n gyfnod hefyd o Dduw yn fy nghymwyso i fod o ddefnydd i'r eglwys a pharatoi lle i mi ym Mhenuel. Rwy'n gorlifo â llawenydd a diolchgarwch am y cyfle hwn ac yn edrych ymlaen at ddarganfod bwriadau Duw ar fy nghyfer yn ystod fy nghyfnod yma."

Meddai'r Parchg Aron Treharne, Gweinidog Penuel, "Rydym wrth ein bodd o fedru croesawu Anna i wasanaethu gyda ni yng Nghaerfyrddin. Rydym yn ddisgwylgar ac hefyd wedi ein calonogi bod Duw yn galw ei bobl at ddiben arbennig, ac edrychwn ymlaen at weld ei ddibenion yn cael eu cyflawni. Mae Duw wedi ateb ein gweddïau wrth arwain Anna i Benuel, gweddïwch y byddwn i gyd yn tyfu yn ein gwybodaeth a'n profiad o'r Arglwydd gyda'n gilydd."



**Jeff a Linda Kim**

Rydym hefyd yn edrych ymlaen at groesawu Jeff a Linda Kim o Los Angeles, UDA a fydd yn cyrraedd Trecelyn, Gwent ar ddechrau mis Awst. Bydd Jeff a Linda wedi'u lleoli gyda'r Parchg Peter Cho ac Eglwys y Bedyddwyr Tabernacl am gyfnod cychwynnol o chwe mis er mwyn ymgartrefu yng Nghymru a deisyf arweiniad Duw o ran eu lleoliad mewn eglwys leol.

Gweddïwch dros Anna a Jeff a Linda wrth iddynt ddod i'n gwasanaethu ni yma yng Nghymru.

# Croeso i Carwyn!



**Mr Carwyn Graves**

**Hyfrydwch yw cyhoeddi penodiad Mr Carwyn Graves fel ein Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu Digidol. Fe fydd Carwyn yn dechrau ar ei waith ym mis Awst 2021.**

Mae'n byw yng Nghaerfyrddin gyda'i wraig a'i deulu, ac yn gweithio ar hyn o bryd i Gyfieithwyr Beibl Wycliffe lle bu'n cyflawni nifer o swyddogaethau ers 2017. Ef yw Is-Gadeirydd MissionAssist a swyddog cyhoeddusrwydd Cymdeithas y Cymod. Cymraeg yw ei iaith gyntaf, ond mae'n rhugl mewn Almaeneg, Ffrangeg, yn ogystal â Saesneg. Graddiodd o Brifysgol Rhydychen gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Ieithoedd Modern. Mae'n awdurdod ar afalau Cymru ac wedi ysgrifennu cyfrol amdanynt. Mae ganddo hefyd ardd lysiau drawiadol.

Mae Carwyn yn aelod yn Eglwys Penuel, Caerfyrddin ac yn edrych ymlaen at gydweithio gyda'r eglwysi a'r Cymanfaoedd i wynebu'r her o genhadu yma yng Nghymru. Un o gyfrifoldebau Carwyn fydd darparu arweiniad ar sut i gyfathrebu'n fwy effeithiol yn ddigidol.

Meddai Carwyn, "Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gael cydweithio gydag eglwysi Bedyddiedig Cymru dros y blynyddoedd i ddod, yn enwedig y cyfle i gydwasanaethu er mwyn cael rhannu'r 'trysor mewn llestri pridd'."




**Diolch i bawb a gyfrannodd i'r apêl. Y cyfanswm terfynol oedd: £35,128.00**

**RHIF FFÔN A CHYFEIRIAD E-BOST NEWYDD Y SWYDDFA:**

**Rhif Ffôn: 0345 222 1514; E-bost: post@ubc.cymru**